Papur 5

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

SeneddTai@senedd.cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl Gadeirydd

**Canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 13 Rhagfyr 2023. Yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnais i'r Gweinidog Newid Hinsawdd fynychu'r cyfarfod ar ran Llywodraeth Cymru gan fod eitemau'r agenda yn dod o dan ei phortffolio hi.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog Tai, Paul McLennan ASA a oedd yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Cynrychiolwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gan Mark O'Donnell, y Dirprwy Ysgrifennydd Tai, Adfywio Trefol a Llywodraeth Leol; Paul Price, y Cyfarwyddwr Polisi Tai Cymdeithasol a David Polley, y Cyfarwyddwr Polisi Cyflenwad Tai. O Lywodraeth y DU, roedd Jacob Young, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro a Lee Rowley, y Gweinidog Gwladol dros Dai, Cynllunio a Diogelwch Adeiladau yn bresennol.

Croesawodd y grŵp gyflwyniad gan yr Athro Ken Gibb o Ganolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) ar ymchwil ynghylch effeithiau rheoleiddio ar y Sector Rhentu Preifat, y materion a'r heriau.

Wedi'r cyflwyniad, cafodd y grŵp gyfle i drafod yr heriau y mae pob llywodraeth yn eu hwynebu o ran cartrefi fforddiadwy a chyflenwad tai. Trafodwyd hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran diogelwch adeiladau, gwaith cyweirio cladin, yswiriant, y marchnadoedd morgeisi a benthyca a choncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC).

Gwnaeth y grŵp gydnabod y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng swyddogion ar draws y meysydd tai a diogelwch adeiladau a chytunwyd i swyddogion barhau i gydweithio fel hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadarnhawyd y bydd Llywodraeth y DU a swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio ar baratoadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol, sydd i'w gynnal fis Mawrth / Ebrill 2024.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government